# Caban Y Faenol CYF

## Gwacáu oherwydd digwyddiad difrifol

Bydd aelod o staff yn canu'r larwm ar unwaith ac yna bydd y Swyddog Cymorth Cyntaf yn cael ei hysbysu ac yn cymryd cyfrifoldeb am benderfynu ar y camau priodol. Os bydd angen galw'r gwasanaethau brys fe wneir hyn cyn gynted â phosibl. Bydd y Swyddog Cymorth Cyntaf yn asesu'r sefyllfa ac yn penderfynu a oes angen i'r plentyn fynd yn syth i'r ysbyty neu a all aros yn ddiogel i'w riant/gofalwr gyrraedd.

Byddwn yn dilyn y drefn Gwacáu Tân i sicrhau bod pawb yn gallu gadael yr adeilad yn ddiogel.

Bydd pob plentyn yn cael ei hebrwng o'r ardal ac i le diogel. Cedwir cofrestr i sicrhau bod pob plentyn yn bresennol.

Os oes angen i blentyn fynd yn syth i'r ysbyty, bydd ambiwlans yn cael ei alw. Cysylltir â'r rhiant/gofalwr hefyd. Bydd aelod o staff yn mynd gyda'r plentyn i'r ysbyty ac yn cydsynio i driniaeth feddygol gael ei rhoi, cyn belled bod y Ffurflen Triniaeth Feddygol Frys wedi'i chwblhau a'i llofnodi.

Os nad oes angen i blentyn fynd yn syth i'r ysbyty ond bod ei gyflwr yn golygu y dylai fynd adref, cysylltir â'r rhiant/gofalwr a gofynnir iddo gasglu ei blentyn.

Os bydd y Rheolwr yn absennol ar adeg digwyddiad am unrhyw reswm, bydd aelod arall o staff yn cymryd cyfrifoldeb neu'n enwebu aelod arall o staff.

Bydd neges yn cael ei hanfon at rieni i roi gwybod iddynt am y sefyllfa. Isod mae enghraifft o'r hyn y gall y neges honno ei gynnwys:

**Oherwydd digwyddiad rydym wedi cael ein cynghori gan y gwasanaethau brys i adael yr adeilad. Gofynnwn yn garedig i chi beidio â chasglu eich plentyn nes ei bod yn ddiogel i wneud hynny. Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl pan fydd hynny'n debygol o fod. Yn y cyfamser, mae angen inni gadw'r llinellau ffôn yn glir a byddem yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad wrth ymatal rhag ein ffonio oni bai ei bod yn gwbl hanfodol eich bod yn siarad â ni.**

**Hysbysiad o Ddigwyddiad**

Gallai gwybodaeth am y digwyddiad ddod o nifer o ffynonellau:

- aelod o staff;
- plentyn;
- rhieni;
- heddlu;
- y cyfryngau;

- y Cyngor Sir

**Casglu Gwybodaeth pan ddaw rhybudd o'r tu allan i'r lleoliad**

Dylai pwy bynnag sy'n derbyn y rhybudd / gwybodaeth ofyn am y wybodaeth ganlynol:

- Enw'r galwr/gwybodaeth
- Beth sydd wedi digwydd?
- Pwy sydd mewn perygl?
- Ydy'r gwasanaethau brys yn ymwybodol?
- A oes unrhyw un wedi'i anafu?
- Pa gamau sydd wedi'u cymryd hyd yn hyn?
- Enw/manylion cyswllt y person cyfrifol
- Beth yw eu cyngor i'r lleoliad?

**Cofnodi'r Digwyddiad a Chamau Pellach**

Unwaith y bydd y digwyddiad drosodd a phawb yn ddiogel, mae'n bwysig ein bod yn cofnodi'r digwyddiadau mor fanwl â phosibl. Bydd Caban Y Faenol Cyf yn hysbysu AGC o'r hyn sydd wedi digwydd, ac yn ymwybodol y gall asiantaethau allanol megis AGC, Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu ddymuno gweld y cofnodion. Os cododd y digwyddiad oherwydd sefyllfa lle'r oedd y perygl yn ymwneud â phlentyn penodol (neu ei deulu) yna rhaid cofnodi hyn yng nghofnod cronolegol y plentyn, a rhaid dilyn y Polisi Amddiffyn Plant. Mewn rhai sefyllfaoedd bydd angen i ni wahanu cofnod y plentyn hwnnw a'i gloi ar ei ben ei hun, yn barod i'w ddefnyddio gan asiantaethau eraill sydd â dyletswydd gyfreithiol i ymchwilio i sefyllfaoedd Amddiffyn Plant.

Bydd pob damwain neu ddigwyddiad o'r fath yn cael eu cofnodi'n fanwl a'u cofnodi yn y Llyfr Cofnodi Damweiniau a Digwyddiadau. Gofynnir i rieni/gofalwyr lofnodi'r adran berthnasol o'r llyfr i gydnabod y digwyddiad neu ddamwain ac unrhyw gamau a gymerwyd gan y Clwb a'i staff.

Dylai'r Rheolwr ac aelodau perthnasol eraill o staff ystyried a yw'r ddamwain neu ddigwyddiad yn amlygu unrhyw wendidau gwirioneddol neu bosibl ym mholisïau neu weithdrefnau'r Clwb, a gweithredu yn unol â hynny, gan wneud addasiadau priodol lle bo angen.